



# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democraidd  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

## FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD MAWRTH, 30AIN MEHEFIN, 2015**

Lleoliad

**Hen Eglwys y Santes Fair, Heol yr Eglwys, Tremadog**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

(Dosbarthwyd: 22.06.15)

# **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

## **AELODAETH**

### **AELODAU CABINET / CABINET MEMBERS**

Y Cynghorydd/Cllr Gareth Thomas (Addysg)  
Y Cynghorydd/Cllr Peredur Jenkins (Adnoddau)

### **CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL / CORPORATE DIRECTORS**

Mr Iwan Trefor Jones

### **PENAETHIAID UWCHRADD / SECONDARY HEAD TEACHERS**

Mr Alun Llwyd – Ysgol Dyffryn Ogwen Sedd wag -  
Mr Eifion Jones - Ysgol Brynrefail Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

### **PENAETHIAID CYNRADD / PRIMARY HEAD TEACHERS**

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal Mr Gwyn Howells - Ysgol y Gelli  
Mrs Sian Elen Pleming - Ysgol Llanaelhaearn Mr Rhys Williams - Ysgol Cymerau  
Mrs Menna Wynn Pugh - Ysgol Penybrynn Mrs Esme Spencer - Ysgol Baladeulyn

### **UNDEBAU ATHRAWON / TEACHERS' UNIONS**

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

### **LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS**

#### **Arfon**

Mr Walter Williams – Ysgol Dyffryn Ogwen -  
Mr Godfrey Northam - Ysgol Llanllechid

#### **Meirionnydd**

Mr Eifion Williams - Ysgol y Moelwyn  
Mr Gwynne Pierce - Ysgol Llanbedr

#### **Dwyfor**

Mr Glyn Owen – Ysgol Uwchradd Botwnnog -  
Mr T. Elwyn Jones - Ysgol Bro Plenydd

### **ESGOBAETH / DIOCESE**

Parchedig/Rev Robert Townsend

### **YSGOLION EGLWYS / CHURCH SCHOOLS**

(Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination)

### **YSGOLION ARBENNIG / SPECIAL SCHOOLS**

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar

#### **Sylwedyddion / Observers :**

Mr Dilwyn Williams, Prif Weithredwr/Chief Executive  
Mr Arwyn Lloyd Thomas, Pennaeth Addysg / Head of Education Service  
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Ysgolion / Senior Schools' Manager  
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu/Finance Manager Development Directorate  
Mr Cai Larsen, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd  
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# R H A G L E N

## 1. **ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd i'r Fforwm ar gyfer 2015/16.

## 2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd i'r Fforwm ar gyfer 2015/16.

## 3. **YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. **COFNODION**

1 - 8

I gadarnhau cofnodion cyfarfod diwethaf y Fforwm a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2015.

(Copi'n amgaeedig)

## 6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION:**

- 3 (a) Hyfforddiant Cyllidol i Ysgolion
  - 13 Hydref 2015
  - 14 Hydref 2015
  - 15 Hydref 2015

Amser a lleoliad i'w gadarnhau

## 7. **GWEITHGOR CYLLID ADDYSG**

9 - 12

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg ar yr uchod.

(Copi ynghlwm)

## 8. **CYFRIFON TERFYNOL YSGOLION 2014/15**

13 - 19

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg ar yr uchod.

(Copi ynghlwm)

**9. GRANT GWELLA ADDYSG**

20 - 32

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg ar yr uchod.

(Copi ynghlwm)

**10. RHWYDWAITH CYFRIFIADUROL YSGOLION**

33 - 35

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid.

(Copi ynghlwm)

**11. PENNU DYDDIADAU AR GYFER CYFARFODYDD**

- ? Tachwedd 2015
- ? Chwefror 2016 (cyn 16 Chwefror 2016)

---

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**  
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Hen Eglwys**  
**Santes Fair, Tremadog,**  
**ar 26 Chwefror 2015 o 10.00 a.m. hyd 12.30 p.m.**

---

**Yn Bresennol:**

**Mr Godfrey Northam - Cadeirydd**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)  
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Penaethiaid Ysgolion :** Eifion Jones (Ysgol Brynrefail), Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Gareth T M Jones (Ysgol Botwnnog), Andrew Roberts (Ysgol y Berwyn), Rhys Williams (Ysgol Cymerau), Esme Spencer (Ysgol Baladeulyn), Menna Wynne-Pugh (Ysgol Penybrynn, Tywyn), Sianelen Pleming (Ysgol Llanaelhaearn)

**Undebau Athrawon:** David Healey (Ysgol Friars)

**Llywodraethwyr:** Walter Williams (Sector Uwchradd)  
Gwynne Pierce (Sector Cynradd)

**Swyddogion:** Arwyn Thomas (Pennaeth Addysg)  
Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Datblygu)  
Eluned Williams (Uwch Swyddog Gwasanaethau Ategol)  
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Gwyn Howells (Ysgol y Gelli), Iona Wyn Jones (Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Edmwnd Prys) a Donna Roberts (Ysgol Pendalar)

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd fel a ganlyn:

- (a) 3 Tachwedd 2015
- (b) 15 Ionawr 2015 Cyfarfod Arbennig

yn ddarostyngedig i gywiro penderfyniad (b) yn Eitem 3 – Targed Arbedion Ysgolion yng nghofnodion 15 Ionawr 2015 i ddarllen

**(i) Bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn cytuno i weithredu'r cynlluniau cytunedig sydd cyfwerth â £1,894,240**

- (ii) gan nad oedd cytundeb terfynol rhwng y sectorau ar unrhyw “Fodel” (A, B, nac C, fel y’i cyflwynwyd) ar gyfer yr elfen staff dysgu yn y tymor canolig (2016/17 – 2017/18), a byddai cyfanswm “Model A” ar gyfer y sector gynradd a “Model C” ar gyfer y sector uwchradd yn gadael y Gweithgor £541,260 yn fyr o’r targed arbedion o £4.3m ar gyfer ysgolion, cytunwyd dylai’r Gweithgor barhau i adolygu gwasanaethau a threfniadaeth addysg er mwyn canfod gweddill y targed arbedion, ac argymhell i’r Cabinet barhau i ofyn sut fyddai orau i wireddu’r £4.3m cyfan.
- (iii) Felly, ar gyfer 2015/16, nodwyd pe bai modd cyfyngu’r arbedion ar gyfer ysgolion i £952,000, roedd cytundeb yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion i’r Cyngor ymarfer disgrifiwn am y tro ar sail cyfaddawd o fewn yr uchafsymiau a gytunwyd arnynt ac yn argymhell i’r Cabinet weithredu yn unol a “Model B” (sydd gyda rhaniad tua 2.3:1 o’r arbedion staff dysgu rhwng y sectorau) yn 2015/16. Byddai hynny yn cwtogi £60,131 o ddyraniad staff dysgu y sector gynradd, a chwtogi £25,771 o ddyraniad staff dysgu y sector uwchradd.

### 3. **MATERION YN CODI O’R COFNODION**

#### **(a) 3 Tachwedd 2014 - Eitem 3 (a) – Hyfforddiant cyllidol i ysgolion**

- (i) Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Rheolwr Cyllid am y diffyg cynnydd i drefnu hyfforddiant cyllidol ysgolion ond parheir i fod yn flauenoriaeth i wneud hynny.
- (ii) Ychwanegodd y Pennaeth Addysg ei fod wedi gofyn i Benaethiaid restru materion rheolaethol sy’n gweithio’n dda fel bo modd ystyried cynnal cyfres o weithdai ar gyfer arweinyddion ysgolion. I gynnal gweithdai a hyfforddiant yr her ydoedd capaciti staff i wneud hynny ac y byddai’n rhaid ystyried y strwythur staffio canolog. Yn ogystal bwriedir estyn gwahoddiad i swyddogion GwE i’r Grwp Rheoli fel bo modd trafod trefniadau adnoddau dynol yn ogystal â chyllid er mwyn sicrhau trefniant o fonitro cadarn.
- (iii) Mewn ymateb, nododd Bennaeth y byddai gweithdy ar drefniadau monitro cyllideb o fudd fel y gellir rhannu rhagolygon y gyllideb.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi’r uchod.**

#### **(b) 15 Ionawr 2015 – Eitem (d) – Prysuro gyda threfniadaeth ysgolion**

Adroddodd y Pennaeth Addysg ei fod yn glir bod angen ystyriaeth i drefniadaeth ysgolion a bod angen prysuro gyda thrafodaethau ac yn arbennig mynd i’r afael â’r is-adeiledd. Nid yw hyn yn golygu cau ond gellir ystyried gwahanol opsiynau ynglyd â’r amodau sydd yn cynnig arweinyddiaeth gadarn i’r dyfodol. Tra’n derbyn y byddir yn drafodaeth anodd ond rhaid bod yn aeddfed er lles y plant o fewn y sefydliadau.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi’r uchod.**

### 4. **ARBEDION YSGOLION**

Adroddod yr Aelod Cabinet Addysg bo strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer flwyddyn nesaf wedi derbyn sylw gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror a bu iddo adrodd ar argymhelliad y Gweithgor Targed Arbedion Ysgolion i weithredu

cynlluniau arbedion cyfwerth £1,894,240 a chyflwynwyd cyflwyniadau'r Penaethiaid Uwchradd a Chynradd yn amlinellu effaith tebygol y toriadau ar gyraeddiadau disgyblion yn seiliedig ar wario'r gymhareb disgybl:athro ar ddim mwy na Model A i'r sector cynradd (sef -£1,406,480) a ddim mwy na Model C i'r sector uwchradd (sef - £458,023).

Cytunodd y Cabinet ar gyfer 2015/16, i argymhelliaid y Fforwm Cyllideb i gyfyngu'r arbedion ar gyfer ysgolion i £952,000, ac i'r Cyngor ymarfer disgrifiwn am y tro ar sail cyfaddawd o fewn yr uchafsymiau a gytunwyd arnynt i weithredu yn unol a "Model B" (sydd gyda rhaniad tua 2.3:1 o'r arbedion staff dysgu rhwng y sectorau) yn 2015/16. Byddai hynny yn cwtogi £60,131 o ddyraniad staff dysgu y sector gynradd, a chwtogi £25,771 o ddyraniad staff dysgu y sector uwchradd.

Yn ogystal penderfynodd y Cabinet ofyn i'r Gweithgor Targed Arbedion Ysgolion gario ymlaen â'i waith er mwyn canfod gweddill y targed arbedion uwchben £952,000 ar gyfer 2015/16 gan ddisgwyl eu hargymhelliaid ynglyn â sut y gellir gwireddu'r £4.3m cyfan dros y cyfnod 2015-16 – 2018/19.

Bu i'r Aelod Cabinet hefyd fynychu cyfarfod gyda Ffederasiwn Cadeiryddion Llywodraethwyr y sector Uwchradd a oedd yn gyfarfod buddiol pryd amlygwyd maint y toriadau i ysgolion a derbyniwyd neges glir o'r cyfarfod hwnnw bod yn rhaid prysuro ymlaen gyda threfniadaeth ysgolion ar draws y Sir. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod llythyr wedi ei anfon i'r wasg ar ran y Ffederasiwn a oedd wedi crofennu'r sefyllfa fymryn ac y byddai trafodaethau agored wedi bod yn llawer iawn gwell.

Ategodd y Pennaeth Addysg bod gwaith pellach i'w gyflawni o ran canfod gweddill y toriadau o £2,405,760 o safbwyt y modelau A (sector cynradd) ac C (sector uwchradd) ynghyd â chanfod y bwlc h o £541,260 rhwng y ddau fodel. Nodwyd ymhellach y byddai'n ofynnol i drafod toriadau canolog er mwyn edrych ar y darlun yn ei gyfanwydd ac yn amlwg nad oedd yr is-adeiladedd yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ystyriwyd y materion canlynol:

- (i) Y byddai'n fuddiol i'r ysgolion petaent yn gwybod yn iawn beth yw rhagolygon y gylideb ymhen tair blynedd
- (ii) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â faint o drafodaeth gynhaliwyd yn y Cabinet ar yr arbedion i'r ysgolion, sicrhodd yr Aelod Cabinet bod trafodaeth deilwng wedi digwydd gyda ystyriaeth wedi ei roi i'r effaith tebygol i ysgolion o wireddu'r toriadau.
- (iii) O safbwyt pryder yr Aelod Cabinet Addysg bod y llythyr wedi ei anfon i'r wasg, esboniwyd ei fod yn benderfyniad unfrydol gan Ffederasiwn Cadeiryddion y Llywodraethwyr i gymryd y cam hwn oherwydd teimlwyd bo'r cyrff llywodraethol yn atebol i rieni ac y dylent fod yn ymwybodol o'r sefyllfa argyfngus a wyneba ysgolion.
- (iv) O safbwyt yr uwchradd, golyga'r toriadau golli  $33\frac{1}{2}$  swyddi athrawon,  $17\frac{1}{2}$  o swyddi cymorthyyddion a 16 swyddi staff ategol ac o'i hanfod felly ysgol ganolig yn mynd i ddiflannu o ran staff yn y flwyddyn gyntaf
- (v) Pryder nad oedd demograffi yn cael ystyriaeth o ran cyfraniad tuag at y toriadau a holl bwynt rhoddi'r cyflwyniadau o effaith tebygol y toriadau ydoedd i ddangos y darlun argyfngus a thynnw y sylw y byddai 100 – 150 o swyddi yn y sector uwchradd yn diflannu dros y 3 blynedd nesaf. Byddai'n fuddiol i ymgymryd âg ymarferiad cyffelyb yn y sector cynradd fel bo modd gweld faint yw'r cyfanswm o swyddi a gollir yn y cynradd a'r uwchradd.
- (vi) Wrth edrych ar ysgolion cyffelyb o'r un teulu, pwysleislwyd bod ysgolion Gwynedd yn cael llai o ddyraniad y pen i ddisgyblion

- (vii) Amlygwyd pryder bod llythyr 3 wedi mynd allan i'r athrawon ac Undebau ac ni welwyd sefyllfa tebyg o'r blaen.
- (viii) Yr angen am brysuro gyda agenda trefniadaeth y Sir.
- (ix) Mewn ymateb i drafodaeth gyda'r Swyddogion Undeb, awgrymwyd i Benauethaid gael sgwrs gyda Owen Owens ynglyn a gwybodaeth cyfredol ar lefel sirol gan yr undebau.

Mewn ymateb i bryderon y Penaethiaid, nododd yr Aelod Cabinet ei fod yn y swydd ers chwe mis bellach ac yn gweld bo addysg o dan straen sylweddol gyda phenderfyniadau anodd. Mae'n anorfol felly i ystyried newidiadau radical i'r holl faes addysg sy'n golygu pob math o ystyriaethau megis arweinyddiaeth, rhwyd diogelu, canoli, ffederaliiddio, a.y.b. er budd y plant sy'n ganolog i unrhyw drafodaethau.

O safbwyt agenda trefniadaeth y Sir, nododd yr angen i ail-edrych ar y strategaeth gan gynnwys materion eraill megis holl wasanaeth addysg o fewn y Sir. Pwysleislwyd bod trefniadaeth yn cymryd amser yn nhermau trefniadau ariannu, cynlluniau busnes ac yn ddibynnol ar capasiti y Tim Trefniadaeth.

Ategodd yr Aelod Cabinet Cyllid bod aelodau'r Cabinet yn lywodraethwyr a bod gweithredu ar y toriadau yn benderfyniad anodd iawn iddynt. Tra'n cydymdeimlo a Phenaethiaid ysgolion, sicrhawyd bod Aelodau'r Cabinet yn deall ac yn pryderu am y sefyllfa. Nodwyd ymhellach bod newid hinsawdd y gyfundrefn a'r is-adeiladedd i'w groesawu a bod hyn yn sail i'r broblem ac apeliwyd ar gydweithio fel y gellir ceisio datrys y sefyllfa.

**Penderfynwyd:** (a) **Cymeradwyo i'r Gweithgor Targed Arbedion Ysgolion barhau â'r gwaith.**

(b) **Bod angen trylwyder fel Adran Addysg ac i gyflwyno rhagolygon 3 mlynedd i ysgolion yn fuan gan gynnwys ffeithiau ynglyn â dyraniadau 2015/16 i gynnwys effaith y toriadau:**

- Demograffi
- Integreiddio
- Grant gwella addysg
- Grantiau 6ed Dosbarth
- Gwybyddiaeth a dysgu (ysgolion oedd yn prynu i fewn)

**5. GRANT GWELLA ADDYSG AR GYFER YSGOLION (GGAY) 2015-16**

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Rheolwr Cyllid o fwriad Llywodraeth Cymru i gyfuno 11 Grant Addysg / Ysgolion i un grant dan yr enw "Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion" a olygai bod y grantiau dan sylw yn lleihau o £156.7m yn 2014/15 i £141.0m yn 2015/16, sef lleihad o £15.7m neu 9.5% (ac yn nhermau real o leiaf £17.3m neu 10.9%). Dosbarthir un swm o'r grant ar lefel Gogledd Cymru (sef 6 awdurdod y consortia) ac yn dilyn trafodaeth rhagwelir dyraniad o £6.4m i Wynedd sydd yn lleihad o £640,000. Roedd swyddogion ynghanol proses o fodelu'r dyraniadau a rhagwelir dyraniad o £3.9m i'r Cyfnod Sylfaen ac y byddai'n rhaid cael trafodaeth fewnol gan bo cyfleoedd amlwg i'w gwired du ac yn mynd i effeithio ar unigolion.

Ategodd y Pennaeth Addysg y byddai'n rhaid cael trafodaethau pellach ynglyn a gwariant y grant ac nad oedd amodau terfynol wedi eu gosod gan Lywodraeth

Cymru. Roedd rhain yn doriadau ychwanegol gan y Llywodraeth ac y byddai'n anorfol dirwyn i ben rhai o'r swyddi sydd yn cael eu talu o'r grant.

**Penderfynwyd:** **Derbyn y wybodaeth uchod gan nodi pryder o doriadau ychwanegol yn arbennig i'r sector cynradd.**

## 6. YMGYNGHORIAD GWYBYDDIAETH A DYSGU

Atgoffodd y Pennaeth Addysg o'r ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ynglyn â newidadau i drefniadau ar gyfer disgyblion gyda anghenion addysgol ychwanegol er mwyn creu cyfundrefn mwy effeithlon a threfniadau aml-asiantaethol cadarn. Byddai'n ofynnal cynnal trafodaethau pellach fel bo modd datblygu rôl ysgol i gydweithio gyda phartneriaid aml-asiantaethol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, gwnaed y sylwadau canlynol:

- (i) Gofynnwyd beth oedd yn digwydd i'r ddarpariaeth sydd wedi cael ei roi mewn lle yn barod a'i gyllido gan yr ysgolion
- (ii) Bod darpariaeth dda mewn ysgolion yn barod ac yn cael ei dynnu oddi ar ysgolion
- (iii) Nad oedd rhai ysgolion wedi ymrwymo i'r CLG gwybyddiaeth a dysgu gyda llawer o'r disgyblion wedi derbyn cynhaliaeth gan yr ysgolion a phryderwyd beth fyddai'n digwydd i'r staff a'r gynhaliaeth i'r disgyblion pe byddai'r arian yn dod i ben Pasg
- (iv) Bod yr awdurdod wedi monitro'r gwasanaeth a roddir i'r disgyblion anghenion addysgol ychwanegol ac wedi cydnabod ei fod yn ddarpariaeth o ansawdd da
- (v) Gwnaed cais i unrhw doriad ddigwydd o fis Medi ymlaen yn hytrach nag Ebrill fel bo hyn yn rhoi cyfle i ysgolion wneud trefniadau perthnasol.

Mewn ymateb i'r pryderon, esboniodd y Pennaeth Addysg pe byddir yn derbyn y wybodaeth cyflawn o'r ymgynghoriad, gall y drefn roi hyblygrwydd i ysgolion ddefnyddio arian. Yn y gorffennol roedd gan unigolion yn y Cyfnod Sylfaen rôl benodol i gefnogi ond bellach fe fyddai'r newidiadau yn deillio o'r ddeddfwriaeth gan y Llywodraeth yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion. Nodwyd ymhellach bod 8 o ysgolion yn gwneud trefniadau eu hunain a hyderir erbyn tymor yr haf y gellir diffunio'n glir yr hyn ddisgwylir o'r adnoddau oherwydd ar hyn o bryd bod gormod o weinyddiaeth. Sichaoedd y Pennaeth Addysg y byddir yn ystyried popeth i leddfu unrhyw bryderon ag y gellir ac fe fyddir yn cyfarwyddo ysgolion sydd wedi tynnu allan o'r CLG.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod gan ofyn i'r Pennaeth Addysg ystyried (v) uchod.**

## 7. FFORMIWLA DYRANNU – CYLLID RHWYDWAITH YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig y Rheolwr Cyllid Datblygu a oedd yn amlinelli fformiwla dyrannu cyllid rhwydwaith ysgolion. Atgoffwyd y Fforwm i'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid roddi cyflwyniad i'r Fforwm yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2014. Ymgynghorwyd â'r 113 o ysgolion a derbyniwyd 4 ymateb sef:

- 1 ysgol yn cadarnhau cefnogaeth i'r dull / fformiwla dyrannu
- 2ysgol yn teimlo bod rhannu rhywfaint o'r costau ar sail niferoedd yn deg, ond bod elfen o anhegwch yn ymddangos i rai ysgolion gydag cost llogi "circuits" uwch na'r cyfartaledd o bosib oherwydd lleoliad. Pryder bod cynsail yma i godi mwy am wasanaethau ym mhellafoedd gwledig y sir yn

hytrach na rhannu'r cyfanswm cost rhwng holl ysgolion. Cynnig bod yr elfen "circuits" yn cael ei rannu'n gyfartaledd rhwng yr ysgolion yn hytrach nac ar sail gwir gost fusol safle.

- Nid oedd sylw y trydydd ysgol ar sail y fformiwla, ond yn hytrach ar ddifyggion y gwasanaeth.

Gofynnodd Llywodraethwr ar ran ysgol gynradd beth fyddai'r adwaith pe byddai'r ysgol yn tynnu allan o'r CLG yn sgil bwriad i gyd-drafod gyda perchnogion Maes Awyr Llanbedr sydd eisoes wedi cael band llydan ffeibr cyflym.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Cyllid y byddir yn cyfleo'r sylw uchod i'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid ac y gellir trafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb ym mis Mehefin pryd y cyflwynir y CLG.

**Penderfynwyd:** (a) **Cymeradwyo i fabwysiadu'r sail dyrannu sydd wedi'i gynnig yn yr adroddiad.**

(b) **Trafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb Ysgolion yng nghyswilt yr ysgolion hynny sy'n dymuno tynnu allan o'r CLG.**

## 8. ADOLYGIAD GWASANAETH CYNHWYSIANT

Cyflwynwyd cais gan y Pennaeth Addysg i Benaethiaid enwebu yn y dalgylchoedd gynrychiolaeth ddaearyddol o'r dair ardal i sefydlu Grwp Tasg ar gyfer modelu beth yw'r ddarpariaeth cynhwysiant oherwydd bod angen adolygu'r gwasanaeth a'i wneud yn addas i bwrrpas. Nodwyd bod anghenion Arfon, Dwyfor a Meirionnydd yn wahanol a rhaid fyddai ystyried modelau newydd erbyn Medi drwy ail-ddiffunio'r gwasanaeth ar gyfer anghenion Gwynedd a'i gydweddu i arian Ewrop.

Mewn ymateb i ymholiad gan Bennaeth ynglyn â datganoli'r gwasanaeth, nododd y Pennaeth Addysg mai'r bwriad fyddai cadw plant yn y prif lif cyn belled ag y gellid gwneud hynny oherwydd bod rhaid cofio nad yw'r prif lif yn addas ar gyfer rhai unigolion ac y byddai modd ystyried pa fodel fyddai'n addas yn hyn o beth. Byddai'n gyfle yn ogystal i roi ystyriaeth i'r rôl y Swyddogion Lles ac i greu llwybr o gefnogaeth cynhwysol.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

## 9. CYLLIDEB INTEGREIDDIO

Adroddodd y Pennaeth Addysg oherwydd nad oedd 24 ysgol wedi ymateb i gais am fap darpariaeth fel bo modd dyrannu'r gyllideb uchod nid oedd digon o wybodaeth i symud ymlaen ac i wneud penderfyniad. Apeliwyd ar Benaethiaid Cynradd i anfon neges i'r dalgylchoedd bod angen y wybodaeth yn ddi-oed er mwyn medru cysoni'r holl wybodaeth i greu darlun cyflawn ac amddiffyn y gyllideb fel bo modd modelu'n effeithiol ar gyfer flwyddyn nesaf. Ni fyddai toriad yn y gyllideb eleni ond teimlwyd rhwystredigaeth pe na fyddai cydweithrediad mewn cyflwyno y map darpariaeth gan ysgolion.

Mewn ymateb, nododd Pennaeth o'r Sector Uwchradd bod rhwystredigaeth i ysgolion oherwydd bod gorwariant ar y gyllideb yma. Roedd yr ysgolion yn derbyn yr arian ac nad oeddynt yn gwario fwy na'r hyn a ddyrannir iddynt a'u bod yn cael eu cosbi ac yn golygu toriad arall ar ben yr holl doriadau eraill.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

## 10. CYFLWYNO CLGau 2015-2018

Cyflwynwyd Cytundebau Lefel Gwasanaeth Ysgolion ar gyfer Arlwo a Glanhau Ysgolion.

Adroddodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Ategol bod pob ysgol erbyn hyn yn rhan o'r Gytundeb bresennol Glanau Ysgolion Cynradd ac Arbennig gan fod Ysgol Eifion Wyn wedi ymrwymo ar ôl nifer o flynyddoedd gyda Chwmni Preifat.

Cyfeiriwyd at y prif newidiadau yn y Cytundeb fel a ganlyn:

### Cynradd

- (i) Bod y gytundeb gyda'r Adran Addysg yn hytrach na Darparu a Hamdden
- (ii) Bod ychwanegiad gwaith ar swydd ddisgrifiadau y glanhawyr a gofal er mwyn cynorthwyo i leihau baich Penaethiaid megis archebu sebon, papur toiled a papur sych dwylo; profi larymau Tân, profi tapiau, cawodydd a thaenellwyr dŵr; gwaith gyda boileri Biomass os yn berthnasol.
- (iii) Diweddarriad o safbwyt DBS a Hyfforddiant Diogelu Lefel 1

### Uwchradd

- (i) Bod 9 ysgol wedi ymrwymo i'r gytundeb bresennol
- (ii) 5 ysgol yn rheoli eu hunain sef Ysgolion Friars, Y Berwyn, Moelwyn, Y Gader ac Ardudwy
- (iii) O safbwyt y newidiadau i'r gytundeb:
  - Bod y gytundeb gyda'r Adran Addysg yn hytrach na Darparu a Hamdden
  - Diweddarriad o safbwyt DBS a Hyfforddiant Diogelu Lefel 1

### Arlwyaeth Cynradd ac Arbennig

- (i) Pob ysgol yn rhan o'r gytundeb bresennol
- (ii) Prif newidiadau:
  - Cytundeb gyda'r Adran Addysg yn hytrach na Darparu a Hamdden
  - Deddfau Newydd yn ymwneud â mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonnau Maeth (Cymru) 2013
  - Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
  - RIDDOR 2013
  - Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonnau Maeth (Cymru) 2013 yn lle "Blas am Oes"
  - DBS a Hyfforddiant a Diogelu Lefel 1

### Arlwyd Uwchradd

11 Ysgol Uwchradd yn rhan o'r gytundeb  
3 ysgol Uwchradd yn rheoli ei hunain – Ysgolion Arduwy, Y Gader a'r Moelwyn

Prif newidiadau fel amlinellir uchod i'r Cynradd ac Arbennig.

O safbwyt cost y gytundeb, yr Adran Addysg yn talu'r costau y Gwasanaeth Arlwyd ar ran yr ysgol ac yna yn trosglwyddo'r costau i'r ysgol bob mis ac yn hawlio ffi rheoli sef canran hyd at 7.5% o'r holl gostau. Ffi rheoli yn 2015/16 yn **5%**.

Amlygwyd y sylwadau isod gan Aelodau'r Fforwm:

- (a) O safbwyt rhaglen hyfforddiant Educare (staff glanhau a chegin), bod y staff angen cefnogaeth ac ni fyddai rhai yn medru ei gwblhau mewn cyfyngiad amser o awr gan nad oes sgiliau cyfrifiadurol gan pob un ohonynt. Teimlwyd hefyd bod y pedwerydd rhan o'r hyfforddiant yn ymwneud â maes rheolaethol.
- (b) A fyddai modd i'r ffi rheoli fod yn 5% i bob ysgol am y tair blynedd.

Penderfynwyd: **Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad a'r CLG.**

### 11. CYFARFOD NESAF

Penderfynwyd: (a) Cynnal cyfarfod nesaf o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion oddeutu canol / diwedd mis Mehefin

(b) Sicrhau y byddir yn anfon adroddiadau ysgrifenedig mewn da bryd i Aelodau ar gyfer y dyfodol.

### CADEIRYDD

<b>CYFARFOD</b>	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
<b>DYDDIAD</b>	30 Mehefin 2015
<b>TEITL</b>	Gweithgor Cyllid Addysg
<b>PWRPAS</b>	Parhau gyda'r gwaith o adnabod a gweithredu arbedion
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Cytuno ar aelodaeth ac amserlen gweithredu
<b>AWDUR</b>	Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
<b>AELOD CABINET DROS ADDYSG</b>	Y Cyngorydd Gareth Thomas

### 1 Arbedion £4.3m

1.1 Yn unol â phenderfyniad y Cabinet 19 Chwefror 2015 (isod) , gofynnir i'r Fforwm Cyllido Ysgolion gadarnhau y dylai'r Gweithgor Cyllid Ysgolion gyfarfod yn fuan er mwyn cynnal trafodaeth.

*6.2 Derbyn cynigion y Fforwm Cyllido Addysg ar gyfer cyflawni £952,000 o arbedion o'r gyllideb ysgolion yn 2015/16 a chadw o fewn yr addewid cyllido ysgolion, gan ddefnyddio "Model B" ar gyfer cwtogi £60,131 o ddyraniad staff dysgu'r sector gynradd, a chwtogi £25,771 o ddyraniad staff dysgu'r sector uwchradd.*

*6.3 Gofyn i'r Fforwm Cyllido Ysgolion barhau i adolygu gwasanaethau a threfniadaeth addysg er mwyn canfod gweddill y targed arbedion uwchben y £952,000 ar gyfer 2015/16, gan ddisgwyl eu hargymhelliaid ynglŷn â sut y gellir gwireddu'r £4.3m cyfan dros y cyfnod 2015/16 - 2018/19.*

*6.4 Gofyn i'r Aelod Cabinet dros Addysg annog cyrff llywodraethol ysgolion unigol i ystyried sut y gallant ddefnyddio balansau eu hysgolion fel rhan o becyn i gyfarch eu bwlch ariannol mewn ffordd gynlluniedig.*

1.2 Amgaeaf er gwybodaeth dadansoddiad o'r £4.3m (atodiad 1) sydd wedi'i baratoi ar gyfer y Gweithgor.

## 2. Toriadau

2.1 Bwriad gosod targed £4.3m oedd ceisio cael y Gwasanaeth Addysg i uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y byddai modd eu gwasgu allan o'r gyfundrefn addysg cyn symud ymlaen i doriadau. Mae'n rhaid derbyn fod y ffin rhwng arbedion effeithlonrwydd a thoriadau yn un anodd i'w diffinio ym maes addysg.

2.2 O fis Medi ymlaen, bydd y Cyngor yn mynd allan i ymgynghori gyda thrigolion Gwynedd ar y **toriadau** y mae'n bosibl eu gweithredu ac ar hyn o bryd, mae'r cabinet yn ystyried yr opsiynau cyfyngedig sydd yna ar gyfer toriadau ym maes Addysg. [Hynny yw gallwn wneud y gyfundrefn yn fwy effeithlon ond yn wyneb natur statudol y gwasanaeth mae'n anodd amgyffred y bydd yna gyfleoedd sylweddol ar gyfer gwneud toriadau i'w cynnig fel dewisiadau i drigolion Gwynedd].

2.3 Yng ngoleuni hynny a'r ffaith fod 38% o wariant y Cyngor ynghlwm ym maes Addysg, mae yna bosibilrwydd y bydd y Cyngor yn chwilio i'r gwasanaeth geisio adnabod mwy o arbedion effeithlonrwydd uwchben y £4.3m presennol.

## 3 Aelodaeth ac Amserlen Gweithredu

3.1 Gofynnir i'r Fforwm ystyried a chadarnhau aelodaeth y Gweithgor Cyllid Addysg, gan atgoffa'r Fforwm am aelodaeth o'r gweithgor blaenorol sef y Gweithgor Targed Arbedion Ysgolion

- 1 Cadeirydd y Fforwm
  - 1 Aelod Cabinet dros Addysg
  - 4 Pennaeth Cynradd
  - 4 Pennaeth Uwchradd
  - 1 Pennaeth Arbennig
  - 1 Yr Esgobaeth
- Ynghyd a'r sylwebyddion isod -
- 1 Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau
  - 1 Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

3.2 Byddaf yn cyflwyno amserlen gweithredu ar gyfer y Gweithgor ar y diwrnod

Gweithgor Cyllid Addysg Arbedion o'r Cwntwm Datganoledig Ysgolion	Blwyddyn Gyllidol 2015/16			Blwyddyn Gyllidol 2016/17			Blwyddyn Gyllidol 2017/18			Blwyddyn Gyllidol 2018/19			Cyfanswm		
	Cynradd	Uwchradd	Cyfanswm	Cynradd	Uwchradd	Cyfanswm	Cynradd	Uwchradd	Cyfanswm	Cynradd	Uwchradd	Cyfanswm	Cynradd	Uwchradd	Cyfanswm
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
1 Fformiwlw - cymhareb athro disgylb 'Model B'	-60,000	-26,000	-86,000	-965,000	-414,000	-1,379,000	-659,000	-282,000	-941,000	0	0	-1,684,000	-722,000	-2,406,000	
2 Ynni	-200,000	-150,000	-350,000	0	0	0	0	0	0	0	0	-200,000	-150,000	-350,000	
3 Glanhau	-15,000	-14,000	-29,000	-26,000	-24,000	-50,000	-11,000	-10,000	-21,000	0	0	-52,000	-48,000	-100,000	
4 Pris Cinio Ysgol	-41,000	-37,000	-78,000	-50,000	-44,000	-94,000	-15,000	-13,000	-28,000	0	0	-106,000	-94,000	-200,000	
5 Brecwast am ddim	-29,000	-29,000	-21,000	-21,000	-21,000	-21,000	0	0	0	0	0	-50,000	0	-50,000	
6 Cwricwlwm Amgen	-83,000	-83,000	-59,000	-59,000	-59,000	-59,000	0	0	0	0	0	0	-142,000	-142,000	
7 Codi Safonau CA3	-112,000	-112,000	-80,000	-80,000	-80,000	-80,000	0	0	0	0	0	0	-192,000	-192,000	
8 Cronfa Maint Dosbarthiadau Mawr CA2	-185,000	-185,000	-132,000	-132,000	-132,000	-132,000	0	0	0	0	0	-317,000	0	-317,000	
9 Trefniadaeth Ysgolion - cynlluniau ar y gweill	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	-345,000	0	-345,000	
10 Trefniadaeth Ysgolion - cynlluniau newydd	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	-198,000	0	-198,000	
Cyfanswm	-530,000	-422,000	-952,000	-1,194,000	-621,000	-1,815,000	-685,000	-305,000	-990,000	-543,000	0	-543,000	-2,952,000	-1,348,000	-4,300,000
Nodir															
11 Sail 'Model B' (sef rhannu arbedion £2,406,000 ar sail Cynradd 70% ac Uwchradd 30%) yw gweithredu toriad ar sail Model A (sef pro rata i'r cwntwm sy'n rhoi Cynradd 55% ac Uwchradd 45%) gan gwanio ymhellach Cymhareb Athro Disgybl (CAD) Cynradd cyfwerth ag hanner disgylb. Byddai gweithredu 'Model B' yn rhoi Cymhareb Athro Disgybl uchaf o 27.09.1:1 mewn Ysgol Gynradd i gymharu gyda'r uchaf o 25.03.1:1 yn 2015/16.															
12 Ni fu unrhyw benderfyniad ar y symiau a ddangosir mewn coch.															

Amgwiadau eraill i cyllid ysgolion	Blwyddyn Gyllidol 2015/16		Blwyddyn Gyllidol 2016/17		Blwyddyn Gyllidol 2017/18		Blwyddyn Gyllidol 2018/19		Cyfanswm (nid yn gyflawn)	
	Cynradd	Uwchradd	Cynradd	Uwchradd	Cynradd	Uwchradd	Cynradd	Uwchradd	Cynradd	Uwchradd
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
13 Gŵr/Ragolwg addasiad ariannol nifer disgylbion	£174,000	-£404,000	£210,000	-£482,000	£21,000	-£333,000	-/+£?	-/+£?	£405,000	-£1,219,000
14 Grant Gwella Addysg	-	-	-£?	-£?	-£?	-£?	-£?	-£?	-£?	-£?
15 Grant Amddifadedd Disgyblion	£190,000	£25,000	£110,000	£73,000	-/+£?	-/+£?	-/+£?	-/+£?	£300,000	£98,000
16 Grant 6ed Dosbarth	-	-£160,000	-/+£?	-/+£?	-/+£?	-/+£?	-/+£?	-/+£?	-	-£160,000

Balansau	Ciplun 31 Mawrth 2015		Cynradd	Uwchradd
	Balansau			
	17 Balansau ysgolion - arian	£2,613,766		£820,055
18 Balansau ysgolion - canran o'r dyraniad	7.32%	2.45%		

Education Finance Working Group Savings from the Schools Delegated Quantum	Financial Year 2015/16			Financial Year 2016/17			Financial Year 2017/18			Financial Year 2018/19			Total		
	Primary	Secondary	Total	Primary	Secondary	Total	Primary	Secondary	Total	Primary	Secondary	Total	Primary	Secondary	Total
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
1 Formula - pupil teacher ratio 'Model B'	-60,000	-26,000	-86,000	<b>-965,000</b>	<b>-414,000</b>	-1,379,000	<b>-659,000</b>	<b>-282,000</b>	-941,000	0	-1,684,000	-722,000	-2,406,000		
2 Energy	-200,000	-150,000	-350,000	0	0	0	0	0	0	0	-200,000	-150,000	-350,000		
3 Cleaning	-15,000	-14,000	-29,000	-26,000	-24,000	-50,000	-11,000	-10,000	-21,000	0	-52,000	-48,000	-100,000		
4 School Meals Price	-41,000	-37,000	-78,000	-50,000	-44,000	-94,000	-15,000	-13,000	-28,000	0	-106,000	-94,000	-200,000		
5 Free Breakfast	-29,000	-29,000	-21,000	-21,000	-21,000	0	0	0	0	0	-50,000	0	-50,000		
6 Alternative Curriculum	-83,000	-83,000	-59,000	-59,000	-59,000	0	0	0	0	0	0	-142,000	-142,000		
7 Raise Standards KS3	-112,000	-112,000	-80,000	-80,000	-80,000	0	0	0	0	0	0	-192,000	-192,000		
8 KS2 Large Class Size Fund	-185,000	-185,000	-132,000	-132,000	-132,000	0	0	0	0	0	-317,000	0	-317,000		
9 Schools Reorganisation - plans in place	0	0	0	0	0	0	-345,000	-345,000	-345,000	-345,000	-345,000	0	-345,000		
10 Trefniadaeth Ysgolion - new plans	0	0	0	0	0	0	-198,000	-198,000	-198,000	-198,000	-198,000	0	-198,000		
<b>Total</b>	<b>-530,000</b>	<b>-422,000</b>	<b>-952,000</b>	<b>-1,194,000</b>	<b>-621,000</b>	<b>-1,815,000</b>	<b>-685,000</b>	<b>-305,000</b>	<b>-990,000</b>	<b>-543,000</b>	<b>0</b>	<b>-543,000</b>	<b>-2,952,000</b>	<b>-1,348,000</b>	<b>-4,300,000</b>

**Note**

11 'Model B' (namely divide £2,406,000 savings on the basis Primary 70% and Secondary 30%) is based upon 'Model A' (namely pro rata to the quantum which gives Primary 55% and Secondary 45%) and then weakening further the Primary Pupil Teacher Ratio (PTR) equivalent to half a pupil. Implementing 'Model B' will give a highest Pupil Teacher Ratio of 27.09:1 in a Primary School compared to the highest of 25.03:1 in 2015/16.

12 There has been no decision on the amounts shown in red.

Tua Other variations to schools finance	Financial Year 2015/16		Financial Year 2016/17		Financial Year 2017/18		Financial Year 2018/19		Total (not complete)	
	Primary	Secondary	Primary	Secondary	Primary	Secondary	Primary	Secondary	Primary	Secondary
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
13 Actual/Projected financial effect pupil numbers	£174,000	-£404,000	£210,000	-£482,000	£21,000	-£333,000	-/+£?	-/+£?	£405,000	-£1,219,000
14 Education Improvement Grant	-	-	-£?	-£?	-£?	-£?	-£?	-£?	-£?	-£?
15 Pupil Deprivation Grant	£190,000	£25,000	£110,000	£73,000	-/+£?	-/+£?	-/+£?	-/+£?	£300,000	£98,000
16 6th Form Grant	-	-£160,000	-/+£?	-/+£?	-/+£?	-/+£?	-/+£?	-/+£?	-	-£160,000

Balances	Snapshot 31 March 2015							
	Primary	Secondary						
	£	£						
17 Schools' Balances - funds	£2,613,766	£820,055						
18 Schools' Balances - percentage of allocation	7.32%	2.45%						

<b>CYFARFOD</b>	<b>FFORWM CYLLIDEB YSGOLION</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>30 Mehefin 2015</b>
<b>TEITL</b>	<b>Cyfrifon Terfynol Ysgolion Blwyddyn Gyllidol 2014/15</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>Cyflwyno er gwybodaeth</b>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	<b>Derbyn yr adroddiad</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg</b>
<b>AELOD CABINET DROS ADDYSG</b>	<b>Y Cynghorydd Gareth Thomas</b>

## 1 Cyfrifon Terfynol 2014/15

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2015 (atodiad 1).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2015 -

	canran	31/03/2014	cynnydd/lleihad	31/03/2015	canran
<b>Cynradd</b>	7.26%	£2,567,330	+£46,436	£2,613,766	7.32%
<b>Uwchradd</b>	3.30%	£1,139,969	-£319,914	£820,055	2.45%
<b>Arbennig</b>	3.20%	£69,547	-£7,787	£61,760	2.80%
<b>Cyfanswm</b>	<b>5.24%</b>	<b>£3,776,846</b>	<b>-£281,267</b>	<b>£3,495,480</b>	<b>4.89%</b>

1.3 Yn gyffredinol, mae balansau holl ysgolion Gwynedd wedi gostwng £281,267 yn ystod 2014/15 i £3,495,580, cyfateb i 4.89% o'u dyraniad terfynol.

1.4 Mae gan 15 ysgol ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2014/15 gwerth £327,873, i gymharu gyda 7 ar ddiwedd 2013/14 gwerth £116,313.

- 9 Ysgol Gynradd gyda chyfanswm diffyg £111,677 (amrywio rhwng £780 a £52,579)
- 5 Ysgol Uwchradd gyda chyfanswm diffyg £190,742 (amrywio rhwng £17,943 a £94,128)
- 1 Ysgol Arbennig gyda diffyg £25,454

1.5 Yn unol â'r hyn ddigwyddodd yn 2012/13 ac 2013/14, fe welir lleihad sylweddol ym malansau Ysgolion Uwchradd a chynnydd ym malansau Ysgolion Cynradd.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg grym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig.

2.2 Manylion y drefn gweithredu

- **Balansau dros 5% :** Yn unol â Chynllun Ariannu Ysgolion (cymal 4.2) mae gofyn statudol i ysgolion sydd â balansau dros 5% o'u dyraniad adrodd i'r Awdurdod ar y defnydd mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud o'r balansau (disgwylir bod y Corff Llywodraethol wedi cytuno ar ymateb yr ysgol i'r holiadur). Gwneir hyn trwy ryddhau holiadur pwrpasol (atodiad 2) .

**Amserlen: holiadur i'w ddychwelyd erbyn 17 Gorffennaf 2015**

- **Balansau dros drothwy £50,000/£100,000 :** Adnabod balansau Ysgolion ar y 1 Ebrill, gan ychwanegu cyfrifiad o'r balansau sydd dros y trothwy priodol (atodiad 2). Gofynnir i'r ysgolion perthnasol adrodd i'r Awdurdod ar y defnydd mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud o'u balansau (disgwylir bod y Corff Llywodraethol wedi cytuno ar ymateb yr ysgol i'r holiadur). Gwneir hyn trwy ryddhau holiadur pwrpasol (atodiad 2).

**Amserlen: holiadur i'w ddychwelyd erbyn 17 Gorffennaf 2015**

- **Cyfarwyddo Corff Llywodraethu**

Yn dilyn adolygiad o ymateb ysgolion perthnasol i'r ddau gais uchod, os yn briodol, byddaf yn cyfarwyddo'r Corff Llywodraethu sydd â balansau uwchben y trothwy £50,000/£100,000 sut i wario elfen o'u balansau a gofyn am gadarnhad y byddant yn gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd.

Byddaf hefyd, yn cysylltu gydag ysgolion sydd â balansau dros 5%, ond o dan y trothwy, os ydi'r holiadur ar ddefnydd o falansau yn aneglur ac/neu fod y rhesymau a gynigir yn annerbyniol neu'n amwys.

**Amserlen: Hydref 2015**

- **Talu gwarged i'r Awdurdod**

Adolygu os yw ysgol wedi gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd, ac os nad ydynt, hysbysu ysgol o'r swm ariannol a drosglwyddir yn syth o gyllideb yr ysgol i'r gyllideb ysgolion.

**Amserlen – Rhagfyr 2015**

2.3 Mae colofn 'F' ar atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon.

## **2. Casgliad**

- 2.1 Mae cyfanswm a chanran balansau Ysgolion Cynradd Gwynedd yn parhau'n uchel ac yn parhau i achosi pryder.
- 2.2 Hefyd yn achosi pryder yw'r ffaith bod gan Wynedd unrhyw ysgol gyda diffyg ariannol, ynghyd a'r cynnydd yn y nifer ysgolion a gwerth y diffyg.

## **3. Argymhelliaid**

- 3.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid cydweithio yn agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**
- 3.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid adolygu trefniadau presennol monitro cyllidebau ysgolion.**
- 3.3 Wrth drafod balansau, rhaid ystyried yr her ar ysgolion i ddarganfod arbedion ariannol sylweddol yn y blynnyddoedd gyllidol 2016/17, 2017/18 a thu hwnt. Dylid hefyd fod yn ymwybodol am effaith ariannol rhagolwg lleihad pellach yn nifer disgyblion Ysgolion Uwchradd o dros £800,000 rhwng 2016/17 a 2017/18.**

Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2015 /  
Schools Balances 31 March 2015

Eitem 8 - atodiad 1  
Item 8 - appendix 1

A	B	C	CH	D	DD	E	F	
Rhif Ysgol School No	Enw Ysgol / School Name	Balansau / Balances 31/03/14	Dyraniad Terfynol / Final Allocation 2014/15	Balansau 31/03/15 fel % o'r Dyraniad / Balances 31/03/15 as a % of Allocation	Balansau / Balances 31/03/15	Cyfanswm Balansau dros 5% / Total Balances over 5% 31/03/15	Cyfanswm Balansau dros £50k neu £100k / Total Balances over £50k or £100k 31/03/15	
		£	£		£	£	£	
1	2000	Gwaun Gynfi	30,062	607,441	6.53%	<b>39,666</b>	9,294	
2	2004	Nefyn	42,759	469,564	11.34%	<b>53,238</b>	29,760	
3	2006	Llanrug	<b>-14,200</b>	770,505	6.85%	<b>-52,759</b>	3,238	
4	2008	Abererch	12,698	232,876	5.65%	<b>13,159</b>	1,515	
*	5	2009	Abersoch	16,145	131,072	12.81%	<b>16,787</b>	10,234
*	6	2010	Beddgelert	10,842	167,739	7.37%	<b>12,369</b>	3,982
7	2011	Bethel	4,926	491,388	7.33%	<b>36,043</b>	11,474	
8	2013	Bodfeyrig	33,972	242,836	1.11%	<b>2,684</b>		
9	2015	Borthygést	5,491	206,224	8.76%	<b>18,064</b>	7,753	
*	10	2016	Bronyfoel	26,714	175,915	9.26%	<b>16,298</b>	7,502
11	2017	Brynaerau	19,322	227,830	15.19%	<b>34,598</b>	23,207	
12	2024	Carmel	18,829	195,426	9.51%	<b>18,576</b>	8,805	
13	2026	Y Gelli	46,863	658,235	8.33%	<b>54,842</b>	21,930	
14	2028	Penybrynn	22,171	444,052	6.02%	<b>26,721</b>	4,519	
15	2033	Trefetheryr	38,533	391,313	4.67%	<b>18,271</b>		
16	2035	Cwm Y Glo	35,143	194,212	18.23%	<b>35,411</b>	25,700	
17	2036	Chwilog	7,420	203,189	6.98%	<b>14,174</b>	4,015	
18	2039	Crud Y Werin	23,227	241,960	8.27%	<b>20,020</b>	7,922	
19	2042	Dolbadarn	50,217	560,600	13.80%	<b>77,344</b>	49,314	
20	2046	Edern	15,369	276,641	1.01%	<b>2,800</b>		
*	21	2047	Felinwnda	9,944	161,571	6.63%	<b>10,713</b>	2,635
22	2048	Bro Plennydd	1,886	263,687	-4.33%	<b>-11,430</b>		
23	2049	Gandolbenmaen	14,578	208,059	8.01%	<b>16,675</b>	6,272	
24	2051	Glanadda	21,921	233,818	25.18%	<b>58,878</b>	47,187	
25	2057	Groeslon	62,945	271,159	11.07%	<b>30,012</b>	16,454	
*	26	2059	Llanaelhaearn	2,825	174,940	7.24%	<b>12,661</b>	3,914
27	2060	Llanbedrog	6,235	249,219	3.95%	<b>9,844</b>		
28	2066	Llangybi	20,135	274,514	12.99%	<b>35,648</b>	21,922	
29	2069	Llanllechid	44,784	804,439	-2.53%	<b>-20,358</b>		
30	2070	Llanllyni	62,298	353,652	17.52%	<b>61,957</b>	44,275	
*	31	2075	Bab Morfa Nefyn	20,467	180,554	10.17%	<b>18,366</b>	9,338
*	32	2078	Bala	196	181,887	0.46%	<b>828</b>	
*	33	2081	Nebo	14,167	166,328	15.15%	<b>25,195</b>	16,878
34	2085	Penisarwaen	25,242	206,760	8.09%	<b>16,733</b>	6,395	
35	2089	Bro Lleu	35,207	535,637	5.60%	<b>29,988</b>	3,206	
*	36	2093	Pentreuchaf	3,773	350,224	-2.80%	<b>-9,820</b>	
*	37	2097	Rhiwlas	902	191,986	2.58%	<b>4,945</b>	
38	2098	Rhosgadfan	4,589	190,649	-0.74%	<b>-1,409</b>		
39	2099	Rhostryfan	<b>-3,863</b>	260,911	-0.32%	<b>-842</b>		
40	2103	Sarn Bach	22,738	244,353	10.26%	<b>25,072</b>	12,855	
41	2104	Eifion Wyn	42,122	782,683	9.44%	<b>73,856</b>	34,721	
42	2108	Talyssarn	22,378	315,567	9.74%	<b>30,747</b>	14,968	
43	2110	Y Gorlan	28,134	357,901	7.15%	<b>25,576</b>	7,681	
44	2111	Yr Eifl	4,600	192,825	0.57%	<b>1,097</b>		
45	2112	Tudweiliog	10,138	191,643	5.35%	<b>10,257</b>	675	
46	2113	Waunfawr	21,252	443,941	6.43%	<b>28,530</b>	6,333	
47	2116	Glancegin	45,417	755,368	12.74%	<b>96,234</b>	58,466	
48	2118	Bab Coed Mawr	36,957	211,025	19.56%	<b>41,267</b>	30,716	
49	2119	Yr Hendre	<b>-21,521</b>	1,334,275	-0.62%	<b>-8,329</b>		
50	2122	Bontnewydd	35,923	577,912	5.17%	<b>29,870</b>	974	
51	2123	Y Garnedd	58,909	918,624	7.32%	<b>67,226</b>	21,295	
52	2125	Cymerau	109,069	1,093,592	7.21%	<b>78,813</b>	24,133	
53	2126	Abercaseg	79,295	346,693	27.72%	<b>96,116</b>	78,782	
54	2127	Y Felinheli	14,287	521,590	-1.14%	<b>-5,949</b>		
55	2180	Bala	58,347	347,907	7.71%	<b>26,812</b>	9,417	
56	2181	Traeth	23,105	650,705	0.74%	<b>4,840</b>		
*	57	2182	Clogau	<b>-2,231</b>	185,599	0.66%	<b>1,229</b>	
58	2183	Brittdir	17,058	170,619	12.16%	<b>20,743</b>	12,212	
59	2185	Corris	35,734	204,851	16.89%	<b>34,605</b>	24,362	
*	60	2187	Dinas Mawddwy	36,963	189,438	22.83%	<b>43,241</b>	33,769
61	2189	Dyffryn Ardudwy	22,973	221,652	18.47%	<b>40,933</b>	29,850	
